

Adroddiad Ymgynghori

Heol y Gadeirlan – Gwelliannau i Gerddwyr Rhif y Project: 15101

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynnig y cynllun uchod rhwng 1 Mai a 15 Mai 2015. Derbyniwyd 1 e-bost a 2 alwad ffôn yn gofyn am ragor o wybodaeth am y cynllun yn ystod y cyfnod ymgynghori, i gyd o blaid y cynllun. Rhoddir crynodeb o'r pryderon a'r sylwadau isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Derbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori:

Mater 1 -

Rwyf o blaid y cynnig yn gyffredinol ond hoffwn nodi nad oes sôn am y gwrthdaro rhwng cerddwyr a beicwyr sy'n defnyddio palmantau, weithiau ar gyflymder sylweddol. Gobeithio y bydd y mesurau hyn yn eu hannog i ddefnyddio'r ffordd.

Ymateb

Mae strategaeth teithio cynaliadwy'r Cyngor yn creu gwelliannau i brif lwybrau ledled Caerdydd mewn perthynas â dulliau trafndiaeth gynaliadwy. Cam 1 o'r gwelliannau fydd dileu'r ynysoedd croesi presennol ar Heol y Gadeirlan a fydd yn lleihau achosion o wrthdaro rhwng beicwyr a cherbydau modur tra'n gwella cyfleusterau i gerddwyr. Mae'r ynysoedd croesi presennol hyn yn creu man cyfyng yn y lleoliadau a amlygwyd a all fod yn beryglus i feicwyr. Bydd camau arfaethedig yn y dyfodol yn creu cyfleusterau beicio ar y ffordd er mwyn lleihau'r angen i feicwyr ddefnyddio'r llwybrau cerdded sy'n bodoli eisoes.

Mater 2 -

Byddwn hefyd yn awgrymu y dylid mabwysiadu 20 mya yn yr ardal (hynny yw, ardal ehangach Glan-yr-afon). Mae hefyd bellter sylweddol rhwng y croesfannau arfaethedig a bydd cerddwyr yn cael eu temtio i groesi mewn manau eraill.

Ymateb

O ran y cais am ardal 20mya yn Nglan-yr-afon, hoffwn gadarnhau ein bod wedi sefydlu ardal 20 mya beilot yn Cathays a Phlasnewydd. Cynllun ardal yw'r cynllun hwn, a chaiff ei fonitro am ddwy flynedd ar ôl ei weithredu i asesu a yw'r mesurau a gyflwynir yn effeithiol. Ar ôl y cyfnod hwn, gwneir penderfyniad a allai ardaloedd 20mya gael eu cyflwyno mewn ardaloedd gwahanol o'r ddinas.

Mater 3 -

A fydd traffig dwy ffordd o hyd ar ôl adeiladu'r rhwystrau ymwithiol a'r groesfan sebra uwch?

Ymateb

Bydd y rhwystrau ymwithiol arfaethedig ond yn ymestyn lled y byrddau arafu presennol nid y dyfnder yn y lleoliadau hyn; bydd traffig dwy ffordd o hyd ar Heol y Gadeirlan.